- With administrative support from the Network, colleagues within the gynaecological CSG have championed the need for a national ovarian cancer audit, and have done background work on what information is available via existing databases and the logistics of collecting data. This has led to an extensive data collection study. These foundations have helped to highlight the need for a national audit and has put us on a firm foundation now that the planned Health Quality Improvement Partnership (HQIP) ovarian cancer audit has been announced.
- The Gynaecological CSG facilitated and supported a successful application to the Ovarian Cancer Action Improve UK initiative for the All Wales Ovarian Cancer Prehabilitation Programme. This involved interventions from dieticians, occupational therapists, physiotherapists, geriatricians and prehab nurses. The results have reduced hospital stay and interval from surgery to chemotherapy compared with historical data.

10) The extent to which gynaecological cancers, and their causes and treatments (including side-effects), are under-researched; and the action needed to speed up health research and medical breakthroughs in diagnosing and treating gynaecological cancers.

10.1 Further research is needed within gynaecological cancer. Within Wales there is research taking place within Universities and the clinical service. Wales has representatives within research at national and international levels within the UK National Cancer Research Institute and the International Cancer Benchmarking Partnership.

10.2 As is the case with all cancer, many research questions remain unanswered and much more research is required to improve the lives of women diagnosed with these cancers. There is however growing academic interest and activity in Wales. The Wales Cancer Research Centre gynaecology oncology multidisciplinary research group (MDRG) formed in 2021 has mapped out the research activity in Wales and brought healthcare professionals and scientists together to network, develop new ideas, promote existing research and problem solve. This group links with the Wales Cancer Network Gynaecology Cancer Subgroup (CSG) so that all relevant stakeholders are aware of research activities and ideas creating a bidirectional flow of information with the aim of developing meaningful research in the context of Welsh gynaecological cancer care.

10.3 To give a few examples of the excellent work we have going on, we have scientists in Wales undertaking basic science research investigating prognostic and predictive biomarkers in patients with ovarian cancer. This work requires collaborative working for successful sample collection between clinicians and scientists at several sites in Wales and is growing in success as time goes on. We have scientists developing state-of-the-art,

advanced therapies such as virotherapies and nanomedicines in the context of gynaecological cancers which have the potential to have significant positive impact on patient prognosis. Some of these therapies are approaching first in human stage of development. We have psychologists carrying out qualitative research to better understand why patients don't engage with cervical screening and prehabilitation. We have clinicians leading collaborative research investigating novel therapies and biomarkers that can be used in the treatment of vulval intraepithelial neoplasias and undertaking patient surveys evaluating patient experience of vulval services in general. We have clinicians in Wales leading UK teams running multicentre randomised controlled trials investigating novel therapies in patients with gynaecological cancer and including the associated translational research and much more. There is a definite enthusiasm and willingness in Wales to grow research and put Wales on the map for the benefit of our patients. The MDRG has aided in this.

10.4 Despite this much more could be done. Very few healthcare professionals in gynaecological cancer have research time in their job plans and are commonly not appropriately remunerated for research work they carry out. To encourage clinicians to open existing clinical trial in their centres appropriate remuneration for the work this requires should be made. This would motivate more clinicians to carry out principle investigator (PI) work and increase the access Welsh patients have to clinical trials. This can be demoralising for staff and lead to lack of engagement. Research fellowships are relatively few in number in Wales (although increasing in number over recent years). More support and funding to run fellowships would engage clinicians early in their training and encourage more Welsh trained consultants to continue with academia in their consultant posts. Further, national audit and service evaluation needs to be undertaken to allow us to establish deficiencies in our services and identify areas of research that should be focused on in Wales to focus some research on tackling these issues and raising the standard of care offered.

10.5 For clinical research, colleagues report vacancies within clinical trials units and a lengthy process to set up clinical trials. Some specialised clinical trials are open in selected centres and there are reports of practical and funding difficulties referring patients to clinical trials in England if those trials are not available in Wales.

10.6 For side effects of treatment, an example is the late effects of pelvic radiotherapy. This is an area of unmet need that requires the identification, investigation and treatment of patients with side effects, sometimes years after treatment, and after patients have been discharged from follow-up. There is variation of provision of a late effects service among health boards.

10.7 There is a need for more and accurate data on gynaecological cancer within Wales. This includes data on waiting times, disaggregated for tumour type and with more granular detail of the pathways. Currently data are available by health board and divided into whether patients are waiting for diagnostics or treatment, but there is no other detail available to drill down to which diagnostic test or which treatment is awaited, and where the issues lie. Clinicians are often reliant on reporting their own experiences without data to back up their assumptions. More detailed data currently require individual service

reviews or audits with manual collection of data which is very time-consuming. There is a need for accurate, automated data entry and data collection on waiting times, treatments delivered, and outcomes (e.g. local control, survival, toxicity) and patient reported outcome measures. This requires accurate coding, computer systems to handle large amounts of data and the ability to interpret the outcomes. Organisational and management structures are required to translate insights and innovations into clinical practice.

11) The priority given to planning for new innovations (therapy, drugs, tests) that can improve outcomes and survival rates for women.

11.1 New NICE-approved drugs are currently made available in Wales, with funding for the drugs themselves. However there is an impact on the service when new treatments are introduced, especially if these are maintenance treatments where patients will be on therapy for two years or more. Funding is also required for pharmacy to prepare the drugs, chair time (if the drug is given intravenously), prescribing and out-patient review and management of toxicities. With new indications becoming available, additional strain is put onto the capacity to deliver treatments. Once the service has flexed beyond its existing capacity, new staff appointments and infrastructure are required. The infrastructure needs to support local and regional services, joined up working, collaboration for the clinical service and research, and sharing of best practice. This is the best way to ensure equity of access of treatments for patients.

11.2 The provision of some new treatments and innovations have taken longer than in some other UK nations. Examples include bevacizumab in ovarian and cervical cancer. The provision of new innovations not only benefits patients, but also has the potential to enhance the workforce recruitment by making jobs attractive within Wales. For data collection, a pilot national ovarian cancer audit took place in England. Unfortunately it wasn't possible for Wales to take part in this because of the lack of a funding stream and compatibility of computer systems. A baseline audit did take place in Wales but required individual patient data collection. Pleasingly Wales will now be taking part in the forthcoming HQIP audit. In addition to new innovations on therapy, drugs and tests, there is a need efficient and accurate data collection to facilitate the evaluation of these advances.

11.3 Other innovations have been adopted rapidly into clinical services within Wales. Examples include developments in genetic testing such as increased capacity for BRCA testing, HRD testing and POLE testing.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

28 Mawrth 2023

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr ar 28 Chwefror yn ymwneud â sesiwn graffu'r Prif Swyddog Nyrsio gyda'r pwyllgor ar 26 Ionawr. Mae'n ddefnyddiol gweld yn ysgrifenedig y materion a godwyd yn y sesiwn honno, sef y materion y mae'r pwyllgor yn canolbwyntio arnynt fwyaf.

O ran y **gweithlu nyrsio**, roedd y Prif Swyddog Nyrsio yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi bod yn glir ers cryn amser a'r hyn rwyf wedi'i gydnabod sawl tro yn y Senedd - bod y GIG a'i weithlu ar hyn o bryd yn wynebu'r her fwyaf yn ei hanes o 75 mlynedd. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn amcangyfrif bod swyddi gwag ar gyfer nyrsys a bydwagedd ar hyn o bryd yn cynrychioli mwy na 50% o'r prinder byd-eang o weithwyr iechyd. Dyna pam rwy'n ystyried ei bod yn hanfodol bwysig datrys rhai o'r achosion sylfaenol a amlygwyd hefyd yn eich llythyr.

Rydych wedi cyfeirio at y *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu* a gyhoeddwyd yn ddiweddar a byddwn innau'n cyfeirio at y ddogfen honno yn yr un modd, o ran y cynlluniau uniongyrchol ar gyfer y materion a godwyd yn eich llythyr.

O ran **cadw staff**, mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno cynllun cadw erbyn Ebrill 2023 a fydd yn taflu mwy o oleuni ar y cyfeiriad cenedlaethol yn y maes hwnnw, ac rwy'n siŵr ein bod yr un mor awyddus i weld y ddogfen honno. Mae cystadleuaeth hyd yn oed o fewn y DU: dangosodd Lloegr gyda'r data diweddaraf a gyhoeddwyd ganddynt fod cyfradd swyddi gwag o 10.8% o fewn y grŵp staff Nyrsio Cofrestredig (43,619 o swyddi gwag). Mae hyn yn gynydd ers yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol pan oedd cyfradd y swyddi gwag yn 10.2% (39,721 o swyddi gwag).

O ran **recrwtio**, mae'r cynllun yn sôn am ymgynghori ar gynllun bwrsari GIG Cymru ar ei newydd wedd, ymgyrch denu a recrwtio wedi'i diweddarau a'i gwella gan AaGIC, ail gam ein cynllun recrwtio rhyngwladol, moderneiddio prosesau recrwtio a chynyddu dysgu yn y gwaith er mwyn ehangu mynediad.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 202
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n benderfynol o sicrhau bod gyrfaoedd yn y GIG mor ddeniadol â phosibl ac rwy'n gwerthfawrogi bod angen, fel rhan o hynny, i rolau swyddi a modelau cyflogaeth gael eu moderneiddio er mwyn adlewyrchu bywydau a dyheadau ein staff yn yr 21ain ganrif yn well. I'r perwyl hwnnw, mae'r cynllun yn ymrwymo Llywodraeth Cymru, erbyn Gorffennaf 2023, i gomisiynu gwaith i ddatblygu opsiynau newydd o ran **cyflogaeth hyblyg** a chontractau sy'n gweddu'n well i rai sy'n dymuno gweithio yn y sectorau sylfaenol a chymunedol. Bydd hyn yn gam cyntaf pwysig ar hyd y llwybr hwnnw.

O ran **defnyddio staff asiantaeth**, mae'r Prif Swyddog Nyrsio yn iawn i ddisgrifio'r gwariant presennol fel un eithriadol. Mae bron yn sicr bod cysylltiad achosol rhwng yr amgylchiadau eithriadol a ddaeth yn sgil y pandemig a'r defnydd eithriadol o staff asiantaeth; fodd bynnag mae'n amlwg nad yw'n gynaliadwy nac yn ddoeth yn gyllidol. Rwy'n benderfynol o leihau'n ddramatig y ddibyniaeth ar wariant ar asiantaethau ac rwy'n disgwyl i waith y Grŵp Defnydd Effeithiol o Adnoddau a grybwyllir yn eich llythyr arwain at ganlyniadau pendant yn y maes hwn.

Rwy'n cytuno'n llwyr â'r pwyslais y mae'r Prif Swyddog Nyrsio yn ei roi ar **lesiant y gweithlu** ac mae hyn yn llinyn clir drwy'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Gweithlu, gan ryngweithio â llawer o'i elfennau. Yn benodol, ceir ymrwymadau i Lywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid i gynnal prosiect lles staff mewn partneriaeth gymdeithasol er mwyn gwella llesiant staff; i AaGIC ei gwneud yn ofynnol bod sefydliadau'r GIG yn adolygu canlyniadau arolwg staff GIG Cymru ac yn asesu sut y gall systemau, polisïau a gweithdrefnau gyfrannu'n gadarnhaol at iechyd a llesiant y gweithlu; ac i Lywodraeth Cymru gyflwyno Canllaw Sgwrs Llesiant y Gweithlu wedi'i deilwra ar gyfer unigolion, yn seiliedig ar ddata sy'n gysylltiedig â chynllun peilot, er mwyn deall a mynd i'r afael ag anghenion y gweithlu yn rhagweithiol.

Rydych eisoes wedi cyfeirio yn eich llythyr at yr ymrwymiad yn y cynllun i gyhoeddi **data** am swyddi gwag GIG Cymru erbyn Mehefin 2023. Rwyf wedi bod yn glir ei bod yn annerbyniol i ni fod yr unig wlad yn y DU i beidio â gwneud hynny ac rwy'n falch bod y materion technegol sydd wedi atal gwneud hynny hyd yma yn cael eu tacio.

O ran **Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016**, mae'r Prif Swyddog Nyrsio yn hollol gywir i nodi bod tensiwn rhwng natur un-proffesiwn y Ddeddf a'r angen am ddull mwy sylfaenol amlbroffesiwn o gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol. Rwy'n deall bod y pwyllgor yn cynllunio gwaith craffu ôl-deddfu ar y Ddeddf ar gyfer yr haf/hydref hwn. Rwy'n croesawu hyn ac rwy'n ffyddiog y bydd yn fater canolog yn yr ymarfer craffu hwnnw

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Children, Young People
and Education Committee**

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Lynne Neagle AS,
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.

Dyddiad: 31 Mawrth 2023

Pwnc: "Sortiwch y Switsh" Mind Cymru

Annwyl Lynne

Diolch i chi am roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 15 Rhagfyr 2022 ar fater pwysig pontio rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ("CAMHS") a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion ("AMHS"). Yn ogystal â llywio ein gwaith ar bontio, roedd yn amserol iawn o ran ein hadroddiad ar gymorth iechyd meddwl mewn addysg uwch, lle'r oeddem yn galw am weithredu argymhellion Sortiwch y Switsh yn llawn.

Fel y gwyddoch, roedd y sesiwn hon wedi'i threfnu o ganlyniad i glywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc a oedd yn ymwneud ag adroddiad Sortiwch y Switsh Mind Cymru. Roedd y sesiwn gyda phobl ifanc yn hynod o bwerus. Fe wnaethant adrodd am eu profiadau yn arbennig o huawdl, a chyda synnwyr clir iawn am y newidiadau yr hoffent eu gweld i wella pethau i bobl ifanc eraill sy'n mynd drwy'r cyfnod pontio hwn. Fel y gwyddoch, fe wnaethom ofyn cwestiynau a ddaeth yn uniongyrchol gan y bobl ifanc. Mae clywed gan, a gweithredu ar sail profiadau uniongyrchol plant a phobl ifanc yn ffocws canolog i'n gwaith.

Gwyddom eich bod chi eich hun yn ymroddedig iawn i sicrhau gwelliannau sylweddol yn lles meddyliol ac emosiynol plant a phobl ifanc a'r gwasanaethau sy'n cefnogi hyn. Roeddech yn glir yn ystod y sesiwn fod pontio yn faes blaenoriaeth. Yn dilyn y sesiwn hon, a'r sesiynau craffu ar y gyllideb ym mis Ionawr, gwnaethom nodi fod nifer o feysydd blaenoriaeth ar gyfer Lywodraeth Cymru. Gyda Gweinidogion yn dweud wrthym yn rheolaidd fod gwahanol feysydd yn flaenoriaethau iddynt, mae'n anodd deall yn union beth yw'r blaenoriaethau allweddol weithiau. A allwch amlinellu sut yr ydych yn sicrhau bod ymrwymiad trawslywodraethol i'ch meysydd blaenoriaeth, pan wyddom fod gan Weinidogion eraill Llywodraeth Cymru feysydd blaenoriaeth eraill.



Yn ystod y sesiwn buom yn edrych yn fanwl ar y "bwllch o ran gweithredu" rhwng y strategaethau a'r polisiâu pontio presennol, a phrofiadau pobl ifanc o sut y cânt eu darparu ledled Cymru. Er mwyn llywio ein dealltwriaeth o'r bwllch hwn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi i ni'r gyfres lawn o strategaethau a chanllawiau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r pontio rhwng CAMHS ac AMHS. Rydym yn ymwybodol bod amrywiaeth o ddogfennau'n gysylltiedig â hyn, ac er mwyn inni fod yn glir, byddai'n ddefnyddiol cael pob un ohonynt wedi'u rhestru ar ein cyfer.

Ym mis Rhagfyr, bu ichi dynnu sylw at yr heriau sy'n ymwneud â data, pan ddywedasoch fod rhai pethau'n anodd eu mesur. Fel y disgrifiwyd gennych, mae gwaith yn cael ei wneud ar ddatblygu mesurau canlyniadau yn CAMHS ac yn fwy cyffredinol ar draws gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn; beth fydd y canlyniadau tebygol ac a fydd y rhain yn ddata a fydd ar gael yn fwy cyffredinol, neu a fyddant yn cael eu defnyddio at ddibenion rheoli yn unig gan Fyrddau Iechyd a'r Llywodraeth?

Clywsom am y gyfres o weithdai gyda CAMHS ac AMHS, yr oeddech yn obeithiol y byddent yn "treiddio i mewn i edrych beth yw'r heriau o ran gweithredu..." Byddai'n ddefnyddiol iawn i'n gwaith pe gallech roi rhagor o wybodaeth inni am y gweithdai, gan gynnwys y canlyniadau a'ch barn ar sut y byddant yn cyfrannu at ddatblygu a gwella polisi?

Byddem hefyd yn croesawu pe baech yn nodi sut yr ydych yn gwerthuso effeithiolrwydd cymorth pontio a gwasanaethau pontio yn fwy cyffredinol ledled Cymru. Ym mis Rhagfyr, bu ichi drafod eich cyfarfodydd rheolaidd ag Is-Gadeiryddion Byrddau Iechyd a'ch bod wedi trafod pontio gyda'r grŵp hwn.

Yn ystod y sesiwn cyfeiriasoch at waith Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru ar Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am ganfyddiadau'r gwaith hwn, a beth yw'r camau nesaf. Er bod gennym ddiddordeb yn hyn yng nghydestun pontio yn benodol, mae gennym hefyd ddiddordeb ehangach yn y gwaith hwn gan ei fod yn gysylltiedig â'n diddordeb ehangach mewn lles emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc.

Soniasom hefyd am wasanaethau anhwylderau bwyta yn ystod y sesiwn, pan wnaethoch ddisgrifio'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn y gwasanaethau hyn. Byddem yn croesawu cael rhagor o wybodaeth am y gwelliannau sy'n cael eu cyflawni ar draws y gwasanaethau anhwylderau bwyta, yn enwedig ynghylch y pontio rhwng gwasanaethau plant a phobl ifanc a gwasanaethau oedolion.

Oherwydd y diddordeb cyffredin yn y maes, rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.



Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

13 Mawrth 2023

Annwyl Eluned

Cynlluniau Llywodraeth Cymru

Yn ddiweddar, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn gynllunio strategol i fyfrio ar ein gwaith hyd yma yn y Chweched Senedd, ac i ystyried ein rhaglen waith ar gyfer y dyfodol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad byr ar ein hadolygiad maes o law.

Yn ein gwaith o graffu ar Lywodraeth Cymru, ein nod yw bod yn adeiladol. Wrth drefnu ein gwaith, felly, rydym yn ceisio ystyried cyn belled ag y bo modd pa wybodaeth sydd ar gael i ni am bolisiau, strategaethau, cynlluniau ac ymgynghoriadau arfaethedig Llywodraeth Cymru, gan gynnwys amserlenni (ac unrhyw newidiadau i amserlenni a gyhoeddwyd yn flaenorol).

Er mwyn ein cynorthwyo i ddatblygu ein rhaglen waith, byddem yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:


1. Y **cynllun iechyd menywod** sy'n cael ei ddatblygu gan Gydweithfa GIG Cymru i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd ym mis Gorffennaf 2022 yn y **datganiad ansawdd ar gyfer iechyd menywod a merched**. Yn benodol, byddem yn ddiolchgar o gael gwybodaeth am:
 - a. Eich penderfyniad i ofyn i GIG Cymru ddatblygu'r cynllun iechyd menywod, pan mai dim ond rhai o'r materion y gall gwasanaethau iechyd fynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, mae gwella iechyd menywod yn dibynnu ar

benderfynyddion ehangach fel tlodi ac ymchwil a datblygu, nid dim ond darparu gwasanaethau clinigol.

- b. Cylch gorchwyl y rhwydwaith clinigol ar iechyd menywod, i helpu i wella ein dealltwriaeth o sut y bydd darparu gwasanaethau (gwasanaethau clinigol/cysylltiedig ag iechyd) a phenderfyniadau polisi ehangach sydd â'r nod o wella iechyd menywod yn gweithio gyda'i gilydd.
 - c. Y cynlluniau ar gyfer y gronfa ymchwil bwrbasol ar gyfer iechyd menywod, gan gynnwys pryd y bydd yn weithredol a phwy fydd yn ei goruchwyllo.
 - d. Sut y bydd cydgynhyrchu cynaliadwy wrth ddatblygu, gweithredu a monitro'r cynllun iechyd menywod yn cael ei ariannu.
 - e. Eich blaenoriaethau penodol ar gyfer iechyd menywod yn ystod y Senedd hon. Rydym yn nodi bod y datganiad ansawdd yn cynnwys rhestr o lawer o wahanol gyflyrau iechyd lle mae anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Sut y bydd gwaith yn y meysydd gwahanol hyn yn cael ei flaenoriaethu?
2. Y **cynllun gweithredu strôc** sy'n cael ei ddatblygu gan y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd ym mis Medi 2021 yn y **datganiad ansawdd ar gyfer strôc**, gan gynnwys pryd y disgwyliwch i'r cynllun gael ei gyhoeddi.
 3. Yr adroddiad terfynol ar y **gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Ein dealltwriaeth ni yw bod yr adroddiad terfynol i fod i gael ei gyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2023; a allech gadarnhau'r dyddiad hwn.
 4. Pryd y bydd y **Canllawiau Cynllunio Iechyd a'r dyraniadau byrddau iechyd** yn cael eu cyhoeddi (fel y cawsant yn y blynyddoedd diwethaf).

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn **3 Ebrill 2023**.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol:

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.





Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

4 Ebrill 2023

Annwyl Russell,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mawrth, a ofynnodd am nifer o ddiweddariadau am bolisiâu, strategaethau, cynlluniau ac ymgynghoriadau arfaethedig Llywodraeth Cymru i gynorthwyo'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth iddo ddatblygu ei raglen waith at y dyfodol.

Gweler isod yr ymateb i'ch ceisiadau.

1. Y cynllun iechyd menywod sy'n cael ei ddatblygu gan Gydweithfa GIG Cymru i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd ym mis Gorffennaf 2022 yn y datganiad ansawdd ar gyfer iechyd menywod a merched. Yn benodol, byddem yn ddiolchgar o gael gwybodaeth am:

a. Eich penderfyniad i ofyn i GIG Cymru ddatblygu'r cynllun iechyd menywod, pan mai dim ond rhai o'r materion y gall gwasanaethau iechyd fynd i'r afael â nhw. Er enghraifft, mae gwella iechyd menywod yn dibynnu ar benderfynyddion ehangach fel tlodi ac ymchwil a datblygu, nid dim ond darparu gwasanaethau clinigol:

Rwyf wedi'i gwneud yn glir bod rhaid inni newid y ffordd yr ydym yn darparu gofal iechyd i fenywod a merched yng Nghymru fel y gallant gael ato mewn modd amserol, fel y bydd y GIG yn ymatebol i'w dewisiadau a'u hanghenion ac fel y bydd ymchwil a datblygu yn adlewyrchu profiadau bywyd menywod a merched.

Dyna pam yr ydym ni yng Nghymru wedi ymrwymo i ddod â'r holl faterion pwysig hyn ynghyd mewn Cynllun Iechyd Menywod, wedi'i ddatblygu a'i berchnogi gan ein GIG yng Nghymru. Rydym eisoes wedi cymryd camau pwysig tuag at greu'r cynllun hwn.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Cydweithrediaeth GIG Cymru [Adroddiad Darganfod: Sylfeini Cynllun Iechyd Menywod](#). Gan amlinellu safbwyntiau menywod a merched ledled Cymru, nododd y ddogfen hon anghydraddoldebau a bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd, yn ogystal â chyfleoedd i wella iechyd menywod.

Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldebau presennol yn y ffordd y mae merched yn cael mynediad at ofal iechyd yng Nghymru, a'u profiad o ofal iechyd, yn hanfodol er mwyn creu'r profiadau a'r canlyniadau gwell y dymunwn eu gweld, ac am y rheswm hwn y mae GIG Cymru wedi cael y dasg o ddatblygu Cynllun Iechyd Menywod 10 mlynedd.

Fodd bynnag, wrth gwrs mae penderfynyddion cymdeithasol ehangach o iechyd y mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw hefyd. Felly, bydd fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o feysydd polisi amrywiol er mwyn cyflawni uchelgeisiau Cymru iachach mewn modd cydgysylltiedig.

b. Cylch gorchwyl y rhwydwaith clinigol ar iechyd menywod, i helpu i wella ein dealltwriaeth o sut y bydd darparu gwasanaethau (gwasanaethau clinigol/cysylltiedig ag iechyd) a phenderfyniadau polisi ehangach sydd â'r nod o wella iechyd menywod yn gweithio gyda'i gilydd:

Yn unol â'r Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, mae Rhwydwaith Iechyd Menywod yn cael ei greu eleni a fydd yn hwyluso dull mwy strategol a systematig o gydlynu, cyflawni a sicrhau darpariaeth gofal iechyd menywod ledled Cymru.

Bydd y Rhwydwaith yn dwyn ynghyd glinigwyr o ddisgyblaethau a sectorau amrywiol, cynrychiolwyr cleifion, academyddion a llunwyr polisïau i gyflawni Cynllun Iechyd Menywod GIG Cymru, yn ogystal â phenderfynu ar ganlyniadau mesuradwy allweddol, a'u monitro, a rhannu arferion gorau.

Bydd cylch gorchwyl y Rhwydwaith yn cael ei bennu ar y cyd gan ei aelodau cyfansoddol, sefydliadau a chynrychiolwyr cleifion, gan sicrhau bod anghenion a lleisiau menywod yn parhau i fod yn ganolog i gynllunio a datblygu.

c. Y cynlluniau ar gyfer y gronfa ymchwil bwrpasol ar gyfer iechyd menywod, gan gynnwys pryd y bydd yn weithredol a phwy fydd yn ei goruchwyllo:

Yn hanesyddol, mae menywod wedi bod o dan anfantais oherwydd diffyg ymchwil a data am gyflyrau sy'n effeithio arnynt hwy, neu pan fo gofal clinigol yn cael ei fodelu ar ddata ac ymchwil sydd wedi'u seilio'n bennaf ar ddynion a'u profiadau hwy.

Ceir enghreifftiau o ymchwil hanfodol sydd eisoes ar y gweill yng Nghymru i hybu dealltwriaeth o gyflyrau iechyd menywod a gwerthuso'r dulliau presennol o ddarparu triniaeth a chymorth. Fodd bynnag, mae cyfle ac mae angen ehangu'r ffocws ymchwil hwn.

Felly, mae fy swyddogion yn gweithio i gefnogi cyfleoedd ymchwil i feysydd iechyd menywod lle mae bylchau hysbys mewn gwybodaeth. Mae cyfarfodydd wedi'u trefnu ar gyfer mis Ebrill i fwrw ymlaen â'r gwaith pwysig hwn.

d. Sut y bydd cydgynhyrchu cynaliadwy wrth ddatblygu, gweithredu a monitro'r cynllun iechyd menywod yn cael ei ariannu:

Mae cydgynhyrchu cynaliadwy yn ganolog i wireddu'n effeithiol uchelgeisiau Cymru iachach a dyletswydd a osodir ar bob bwrdd iechyd wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i'w cymunedau lleol.

Mae cyfrifoldeb dros sefydlu'r Rhwydwaith Iechyd Menywod a chyflawni swyddogaethau cynllunio a rheoli ansawdd hanfodol yn cael ei wneud yn glir yn llythyr cylch gwaith Gweithrediaeth y GIG a fydd yn cael ei ddyroddi gan Lywodraeth Cymru yn fuan. Bydd y Rhwydwaith yn disodli'r Grŵp Gweithredu ar Iechyd Menywod (a sefydlwyd yn 2018) ac yn gweithredu fel y prif gyfrwng ar gyfer dylunio a chyflawni'r Cynllun Iechyd Menywod.

Mae fy swyddogion yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr o Glymblaid Iechyd Menywod Cymru, sy'n cynrychioli dros 60 o sefydliadau elusennol a thrydydd sector, er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau a'u blaenoriaethau, yn ogystal â rhai'r menywod y maent yn eu cynrychioli, yn parhau i lywio datblygiad y Cynllun Iechyd Menywod a'r Rhwydwaith Iechyd Menywod. Rwy'n falch o gadarnhau bod y Glymblaid wedi cytuno i gynnig cynrychiolwyr i fod yn rhan o'r Rhwydwaith a fydd yn ganolog i sicrhau bod cydgynhyrchu hanfodol yn cael ei gynnal wrth ddatblygu a gweithredu'r Cynllun Iechyd Menywod a monitro ei ganlyniadau.

e. Eich blaenoriaethau penodol ar gyfer iechyd menywod yn ystod y Senedd hon. Rydym yn nodi bod y datganiad ansawdd yn cynnwys rhestr o lawer o wahanol gyflyrau iechyd lle mae anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Sut y bydd gwaith yn y meysydd gwahanol hyn yn cael ei flaenoriaethu?

Mae'r Datganiad Ansawdd yn nodi'n glir fy nisgwyliadau ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd i fenywod Cymru. Mae hyn yn cynnwys y cyflyrau hynny sy'n benodol i fenywod a merched, ond hefyd y meysydd hynny lle rydym yn gwybod y ceir anghydraddoldebau rhwng y rhywiau yn y gofal a ddarperir a'r canlyniadau a gyflawnir.

Bydd y Cynllun Iechyd Menywod yn amlinellu sut y bydd GIG Cymru yn cyflawni'r disgwyliadau hyn yn ogystal â'n huchelgeisiau ehangach ar gyfer iechyd menywod. Bydd y cynllun gwaith, gan gynnwys blaenoriaethu gweithgareddau ac amserlenni cyflawni, yn cael ei gydgynhyrchu rhwng y Rhwydwaith Iechyd Menywod a Gweithrediaeth y GIG.

2. Y cynllun gweithredu strôc sy'n cael ei ddatblygu gan y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc i gyflawni'r uchelgeisiau a nodwyd ym mis Medi 2021 yn y datganiad ansawdd ar gyfer strôc, gan gynnwys pryd y disgwyliwch i'r cynllun gael ei gyhoeddi:

Rydym yn cydnabod bod rhaid i'n model presennol ar gyfer rheoli strôc newid er mwyn gwella canlyniadau strôc yn unol â'n nod. Rydym yn gweithio tuag at y nod hwnnw drwy'r Datganiad Ansawdd ar gyfer Strôc a thrwy ddatblygu Manyleb Gwasanaethau Strôc sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.

Datganiad Ansawdd ar gyfer Strôc

Cyhoeddwyd y Datganiad Ansawdd ar gyfer Strôc ym mis Medi 2021. Mae'n nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau strôc dros y 5 mlynedd nesaf ac yn gosod nodau clir ar gyfer pawb o bob oedran mewn perthynas â strôc. Mae'r nodau hyn wedi'u trosi'n ganlyniadau clir ar gyfer tri grŵp poblogaeth:

- Grŵp Poblogaeth 1 - Pawb yng Nghymru sydd heb gael strôc.
- Grŵp Poblogaeth 2 - Pawb yng Nghymru sydd wedi cael strôc.
- Grŵp Poblogaeth 3 - Pawb yng Nghymru sy'n gofalu am rywun agos atynt sydd wedi cael strôc.

Manyleb Gwasanaethau

Ar gyfer y cam nesaf, rydym wrthi'n llunio manyleb gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ar gyfer strôc i fod yn sail i'r datganiad ansawdd. Bydd y fanyleb yn amlinellu'r safonau ar gyfer gofal strôc, yn cefnogi cynllunio lleol ac yn ysgogi gwelliant mewn perfformiad ar gyfer gwasanaethau strôc yng Nghymru. Bydd yn cynnwys pwyslais clir ar atal a'r canlyniadau sy'n bwysig i bobl.

Mae'r fanyleb gwasanaethau'n cael ei datblygu gan is-grŵp o'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc, o dan arweiniad yr Arweinydd Clinigol ar gyfer Strôc yng Nghymru a chan gynnwys partneriaid clinigol, partneriaid o'r trydydd sector a phartneriaid academaidd.

Canolbwyntir i ddechrau ar grŵp poblogaeth 2; mae manyleb gwasanaethau'n cael ei datblygu ar gyfer y grŵp hwn ac mae llwybr yn cael ei ddatblygu. Mae'r llwybr wedi cael ei gydgyhyrchu ac mae'n cael ei gymeradwyo drwy gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Bydd proses debyg yn cael ei dilyn ar gyfer grwpiau poblogaeth 1 a 3, a bydd grwpiau partneriaeth priodol yn cael eu sefydlu. Mae'r gymdeithas strôc yn ymwneud yn helaeth â'r gwaith hwn.

Rhagwelwn y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau erbyn diwedd yr haf ac yn cael ei gefnogi gan ddangosfwrdd data newydd ar gyfer strôc wedi'i ddatblygu gan Uned Gyflawni GIG Cymru.

Ymwybyddiaeth y cyhoedd

Bydd lechyd Cyhoeddus Cymru yn hwyluso ailgynnal ymgyrch FAST i wella ymwybyddiaeth y cyhoedd o arwyddion strôc, ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal i ddatblygu datrysiad cynaliadwy ar gyfer ymgyrchoedd yn y dyfodol.

Y Gweithlu a Chanolfannau Strôc Rhanbarthol Cynhwysfawr a Rhwydweithiau Cyflawni Gweithredol

Mae Is-grŵp Gweithlu newydd wedi'i sefydlu fel rhan o'r Rhaglen Strôc newydd i ddatblygu pedair Canolfan Strôc Rhanbarthol Gynhwysfawr a Rhwydweithiau Cyflawni Gweithredol. Rydym yn hyderus y bydd y canolfannau a'r rhwydweithiau hyn yn gwella'r canlyniadau i bobl yng Nghymru sydd wedi cael strôc. Bydd datblygu'r model newydd hwn yn ein galluogi i drawsnewid gofal strôc a datblygu llwybrau fel y gall pobl gael y gofal a'r driniaeth strôc angenrheidiol yn uniongyrchol, heb fynd i adran damweiniau ac achosion brys yn gyntaf.

Fodd bynnag, ar draws y DU mae prinder o'r clinigwyr arbenigol sydd eu hangen i weithredu Canolfannau Strôc Rhanbarthol Cynhwysfawr yn effeithiol, ac yn benodol, i ymgymryd â thrombectomi mecanyddol. Felly, bydd strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu'n cael ei datblygu ochr yn ochr â'r Canolfannau Strôc Rhanbarthol Cynhwysfawr. Bydd yr Is-grŵp Gweithlu yn edrych ar y gofynion ar gyfer gweithlu strôc cadarn a chynaliadwy a'u hanghenion hyfforddi. Bydd y grŵp yn gweithio tuag at ddatblygu'r datrysiadau priodol ar gyfer Cymru. Mae aelodau'r is-grŵp eisoes wedi cwrdd â chydweithwyr yn GIG Lloegr i drafod eu profiadau o ddatblygu strategaeth gweithlu ar gyfer datblygu Canolfannau Strôc Rhanbarthol Cynhwysfawr, a dysgu o'r profiadau hynny.

Gwasanaeth thrombectomi i Gymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'n gryf y cynlluniau i ddatblygu gwasanaeth thrombectomi i Gymru. Rydym wedi bod yn gwneud gwelliannau graddol yn nifer y bobl sy'n cael thrombectomi, ac mae ein cyfradd wedi dyblu yn y 12 mis diwethaf. Mae rhagor i'w wneud ond mae camau'n cael eu cymryd i gynyddu nifer y bobl sy'n cael thrombectomi, wedi'i hwyluso gan yr ymdrech i sefydlu Canolfannau Strôc Rhanbarthol Cynhwysfawr. O dan lywodraethiant y Grŵp Gweithredu ar gyfer Strôc, mae Grŵp Goruchwylio Thrombectomi Cenedlaethol yn cwrdd bob 2-3 mis. Mae'r grŵp hwn yn nodi rhannau o lwybr y claf y gellir eu gwella ac yn rhoi camau ar waith i fynd i'r afael â'r rhain. Ffrwyth y camau a gymerwyd gan y grŵp hwn yw rhai o'r gwelliannau a welwyd.

3. Yr adroddiad terfynol ar y gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Ein dealltwriaeth ni yw bod yr adroddiad terfynol i fod i gael ei gyhoeddi cyn diwedd mis Mawrth 2023; a allech gadarnhau'r dyddiad hwn:

Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar 30 Mawrth 2023, gyda datganiad ysgrifenedig ar wefan Llywodraeth Cymru a datganiad i'r wasg gan Brifysgol De Cymru.

4. Pryd y bydd y Canllawiau Cynllunio Iechyd a'r dyraniadau byrddau iechyd yn cael eu cyhoeddi (fel y cawsant yn y blynyddoedd diwethaf):

Ysgrifennais at Gadeiryddion y GIG yn nodi Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer 2023-26 ar 28 Tachwedd 2022. Mae'r fframwaith yn gosod cyfeiriad ein sefydliadau GIG yng Nghymru i lywio eu cynlluniau ar gyfer cylch cynllunio 2023-26. O ystyried yr amgylchedd cynllunio cymhleth yr ydym ni i gyd yn gorfod ei wynebu ar hyn o bryd, yn y tymor byr a chanolig, a chan gydnabod y pwysau ariannol a'r pwysau ar systemau, mae dull diwygiedig ar gyfer y cylch cynllunio nesaf wedi'i fabwysiadu.

Mae'r fframwaith cynllunio yn amlinellu nifer llai o flaenoriaethau y mae angen eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol nesaf, sef:

- Cydberthynas agosach â'r GIG a llywodraeth leol er mwyn mynd i'r afael ag achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal
- Gwella mynediad at wasanaethau gofal sylfaenol
- Gofal brys a gofal mewn argyfwng
- Gofal a Gynlluniwyd, Adfer, Diagnosteg a Llwybrau Gofal
- Gwasanaethau canser a lleihau'r ôl-groniad o gleifion sy'n aros ar y llwybr canser
- Gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc

Fe'ch cyfeiriaf hefyd at fy natganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 7 Chwefror ac sydd i'w weld ar-lein [YMA](#). Bydd yn ofynnol i sefydliadau'r GIG gyflwyno eu cynlluniau erbyn 31 Mawrth 2023 a bydd y cynlluniau hyn yn cael eu hasesu'n gadarn.

Yn olaf, mae'r dyraniadau byrddau iechyd ar gyfer 2023-24 wedi'u cyhoeddi ac maent ar gael ar-lein yn [Gymraeg](#) ac yn [Saesneg](#).

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

—
**Health and Social Care
Committee**

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc
ac Addysg**

—
**Children, Young People
and Education Committee**

Lynne Neagle AS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

19 Ionawr 2023

Annwyl Lynne

Ystyried gwasanaeth cwnsela cenedlaethol i blant

Fel y byddwch yn cytuno, dylai'r broses o feithrin iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol ddechrau'n gynnar ym mywyd plentyn, gan fod perthnasoedd a chysylltiadau cadarnhaol ac iach yn hanfodol i sicrhau eu bod yn datblygu'n iach a'u hiechyd meddwl yn y dyfodol. Am yr un rheswm, pan fo trawma yn digwydd ym mlynnyddoedd cynnar plentyn, mae'n hanfodol bod y gwasanaethau a'r mecanweithiau cywir ar waith, a'u bod yn gweithio gyda'i gilydd mewn ffordd gydgyssylltiedig i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau cwnsela ysgolion, dulliau ysgol gyfan a theuluoedd cyfan, a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), yn ogystal â gweithredu a gwreiddio'r fframwaith NYTH.

Fel rhan o'r gwaith o sicrhau bod y gwasanaethau ataliol ac ymyrryd cywir ar waith i gefnogi plant ledled Cymru, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a roddwyd unrhyw ystyriaeth i sefydlu gwasanaeth cwnsela cenedlaethol i blant i sicrhau bod gan bob plentyn o bob oed, gan gynnwys y rhai nad ydynt eto o oedran ysgol, fynediad at ymarferwyr iechyd meddwl a llesiant.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal
Cymdeithasol



Jayne Bryant AS

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac
Addysg

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.





Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Seneddlechyd@senedd.cymru

5 Ebrill 2023

Annwyl Russell a Jayne,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 19 Ionawr ynglŷn â gwasanaeth cwnsela cenedlaethol i blant. Ymddiheuriadau diffuant am yr oedi cyn ymateb, rydym wedi bod yn cael lefel sylweddol o ohebiaeth yn ddiweddar, ac yn anffodus mewn rhai achosion mae wedi cymryd yn hirach i ymateb nag y byddem wedi dymuno.

Fel y gwyddoch, mae iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc yng Nghymru yn flaenoriaeth hynod bwysig imi, ac rydym yn defnyddio dull gweithredu system gyfan ar gyfer gwella iechyd meddwl a llesiant emosiynol, drwy sicrhau bod y gwasanaethau priodol ar gael i bawb. Ym mis Tachwedd, rhoddais ddiweddariad i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, sy'n egluro'r newidiadau yr ydym yn parhau i'w gweithredu er mwyn gwella ein gwasanaethau.

O ran eich awgrym ynglŷn â gwasanaeth cwnsela cenedlaethol i blant, mae amrywiaeth o wasanaethau cenedlaethol eisoes ar gael i'w defnyddio lle bo hynny'n briodol. Mae gan ein darpariaeth gwnsela yn yr ysgol ddyletswydd statudol i roi cymorth i blant o bob oed ym Mlwyddyn 6 ac yn uwch, gyda gwasanaethau CAMHS yn darparu mewngymorth. Yn 2020, fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd adolygu'r *pecyn cymorth gweithredu cwnsela mewn ysgolion ac yn y gymuned*, gan dynnu sylw at yr angen i sicrhau bod cymorth cwnsela digonol ar gael yn y gymuned i blant nad ydynt yn mynd i'r ysgol gan eu bod wedi eu gwahardd neu oherwydd rhesymau eraill.

Er mwyn cefnogi ein gwaith gydag ysgolion, rydym wedi cyflwyno gwasanaeth mewngymorth ar eu cyfer. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth CAMHS i ysgolion er mwyn eu helpu i roi cymorth emosiynol i fyfyrwyr. Mae ymarferwyr iechyd meddwl dynodedig bellach yn gweithio mewn ysgolion i ddarparu gwasanaeth ymgynghori, cymorth cyswllt, cyngor a hyfforddiant. Yn sgil gweithredu rhaglen beilot

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lynne.Neagle@llyw.cymru
Correspondence.Lynne.Neagle@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

lwyddiannus, mae'r gwasanaeth bellach wedi cael ei gyflwyno ar draws Cymru gyfan. Rydym wedi neilltuo dros £5.3m yn y flwyddyn bresennol i gefnogi hyn, ac mae'r byrddau iechyd wedi dweud eu bod wedi recriwtio dros 100 o staff (cyfateb i staff amser llawn) i weithio gyda'r ysgolion.

Mae hyn yn ychwanegol at y gwasanaethau cwnsela a ddarperir drwy wasanaethau sylfaenol ac eilaidd CAMHS, sydd ar gael i blant o bob oed sy'n bodloni'r trothwy ar gyfer manteisio ar y cymorth hwn. Bellach mae gan bob bwrdd iechyd yng Nghymru bwyntiau mynediad sengl sy'n ei gwneud yn haws cael mynediad at wasanaethau, ac mae gan y byrddau amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys cwnsela, sydd ar gael i bobl ifanc tra maent yn aros i gael asesiadau neu ymyriadau, er mwyn dechrau'r broses o ddarparu mynediad amserol at gymorth.


Nid yw gwasanaethau cwnsela'n addas ar gyfer pob plentyn, yn enwedig plant iau lle mae ffocws ar chwarae, teuluoedd, a therapiau eraill. Dyma'r model sy'n cael ei fabwysiadu gan y byrddau iechyd, ac rydym yn efelychu'r model hwn yn ein gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar. Er enghraifft, ers nifer o flynyddoedd rydym wedi ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddatblygu darpariaeth, sy'n briodol ar gyfer oedran, ar gyfer plant iau sydd o dan y trothwy Blwyddyn 6 presennol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt bellach yn cynnig rhyw fath o gymorth. Amlygwyd hyn yn yr ymchwil yr oeddem wedi ei chomisiynu oddi wrth Brifysgol Caerdydd (a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2022), sef 'Adolygiad o wasanaethau cwnsela statudol mewn ysgolion ac yn y gymuned: Optimeiddio gwasanaethau i blant a phobl ifanc 11 i 18 oed ac ehangu i blant iau oed ysgol gynradd'. Rydym wedi bod yn gweithio gyda chomisiynwyr a darparwyr y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i weithredu ar gasgliadau'r ymchwil ac i wella'r ddarpariaeth ymhellach. Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg a finnau wedi sefydlu Bwrdd Goruchwylio a Gweithredu, sy'n disodli'r Grŵp Cyd-Weinidogol ar gyfer Dull System Gyfan o Ymdrin â Llesiant, er mwyn inni gael sicrwydd bod ein gwaith llesiant yn cael yr effaith a ddymunir. Mae ffrwd waith gwnsela ddynodedig ar gyfer ysgolion wedi cael ei chreu o dan y bwrdd hwn, gyda'r nod o ystyried sut i ehangu a gwella'r ddarpariaeth gwnsela a'r cymorth therapiwtig sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

Hefyd rydym wrthi'n tendro ar gyfer cael rhagor o ymchwil yn y maes hwn, er mwyn gwerthuso effaith y gwasanaethau i bobl ifanc yn yr ysgol ac yn y gymuned. Y nod yw asesu effeithiolrwydd gwasanaethau a'u heffaith ar iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc, canlyniadau addysgol a chymdeithasol pellach (ee cyrhaeddiad, presenoldeb a chydberthynas), ac atgyfeiriadau i CAMHS a gwasanaethau iechyd meddwl eraill.

Wrth inni symud i'r dyfodol, bydd ffocws ar ddefnyddio fframwaith NYTH/NEST i ymwreiddio'r dull gweithredu dim drws anghywir yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau. Mae'r holl Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi dynodi arweinwyr NYTH/NEST er mwyn bwrw ymlaen â'r gwaith o weithredu'r fframwaith hwn, ac fel rhan o hyn, mae'r rhanbarthau'n mapio pa wasanaethau iechyd meddwl a llesiant sydd ar gael, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela, gyda'r nod o wella mynediad at y gwasanaethau hynny. Mae'n bwysig nad ydym y mynd ati i ddarparu cymorth

mewn dull un ateb sy'n addas i bawb a allai creu perygl o gau rhai aelodau o gymdeithas allan – yn enwedig y rheini sydd fwyaf agored i niwed. Rwyf hefyd yn ymwybodol iawn o gais a ailadroddir yn fynych gan bobl ifanc, sef i beidio â rhoi gormod o wedd feddygol ar faterion sy'n ymwneud â thyfu i fyny, ac mae angen inni sicrhau bod hynny'n cael ei gydnabod fel rhan o'n dull gweithredu.

Yn gywir



Lynne Neagle AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

—
**Health and Social Care
Committee**

Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

17 Chwefror 2023

Annwyl Eluned


Amseroedd aros y GIG:

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau adfer a nodir yn rhaplen trawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru Llywodraeth Cymru.

Yn ein cyfarfod ar 15 Chwefror 2023, gwnaethom drafod data amseroedd aros y GIG ar gyfer mis Tachwedd 2022 a ryddhawyd ym mis Ionawr 2023 yn erbyn y targedau adfer a nodir yn y rhaglen. Mae'r gostyngiad yn yr amser aros canolrifol o 29.3 wythnos ym mis Hydref 2020 i 21.2 wythnos ym mis Tachwedd 2022 yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud, er yn arafach nag a ragwelwyd yn y rhaglen. Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r lefelau gweithgarwch wedi cynyddu, ac mae hynny i'w groesawu, ond o ystyried nifer y cleifion sy'n dal i aros i gael eu gweld, mae angen i gapasiti gynyddu y tu hwnt i'r lefelau presennol er mwyn sicrhau bod yr ôl-groniad yn cael ei glirio.

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r materion a amlinellir yn yr atodiad **erbyn 31 Mawrth 2023**.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.



Atodiad: Amseroedd aros y GIG: cais am wybodaeth

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb i'r materion a ganlyn **erbyn 31 Mawrth 2023**.

Targedau adfer

1. Er gwaethaf cyhoeddi cynllun adfer gofal wedi'i gynllunio Llywodraeth Cymru, mae amseroedd aros yng Nghymru yn parhau i godi mewn rhai arbenigeddau. Mae'r rhagamcanion sy'n seiliedig ar y cynnydd hyd yn hyn yn awgrymu, oni bai bod gweithgarwch yn cynyddu'n sylweddol, nad yw'n debygol y bydd targedau adfer Llywodraeth Cymru yn cael eu cyrraedd. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.
2. Pa effaith ydych chi'n rhagweld y bydd pwysau gaeaf 2022-23 a'r camau gweithredu diwydiannol diweddar a gymerwyd gan staff GIG Cymru yn ei chael ar ofal wedi'i gynllunio a chyflawni'r targedau adfer, yn enwedig y targed cyntaf (erbyn diwedd 2022, ni fydd neb yn aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cleifion allanol cyntaf).
3. A oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i'r llwybrau gwella ar gyfer pob bwrdd iechyd er mwyn mynd i'r afael â'r modd y cânt eu cyflawni a bodloni'r mesurau cenedlaethol i glirio'r ôl groniat? Os felly, pa newidiadau sydd wedi'u gwneud, ac a yw pob bwrdd iechyd ar y trywydd iawn?
4. Rydych wedi dweud o'r blaen "fe fydd hi'n cymryd tymor Senedd llawn a llawer o waith caled i adfer wedi effaith y pandemig".¹ A ydych o'r farn o hyd y gall gofal wedi'i gynllunio ddychwelyd i'r lefelau amseroedd aros cyn y pandemig erbyn diwedd y Senedd hon?

Manyllder data

5. A ydych yn fodlon rhannu mwy o ddata manwl (neu wybodaeth reoli sy'n cydnabod cyfyngiadau'r data hyn) gyda'r Pwyllgor ynghylch nifer y llwybrau a gaewyd drwy nodi'n union faint o lwybrau a gaewyd o ganlyniad i glaf yn dechrau triniaeth a faint o lwybrau cleifion sydd wedi'u tynnu oddi ar y rhestr am resymau eraill (h.y. beth fu effaith yr ymarferion dilysu rhestrau aros ac a yw'r canlyniadau yn gyson ar draws byrddau iechyd).

Adfer gwahanol arbenigeddau

Mae sawl arbenigedd lle mae'r amseroedd aros yn arbennig o hir, fel trawma ac orthopedeg, y glust, y trwyn a'r gwddf (ENT) ac offthalmoleg.

¹ Cofnod y Trafodion Cyfarfod Llawn [paragraff 165], 26 Ebrill 2022

6. Yn seiliedig ar ragamcanion cyfredol, pa arbenigeddau ydych chi'n rhagweld fydd yn cyflawni pob un o'r targedau adfer, a pha arbenigeddau na fyddant.
7. Sut mae llwyddiant yn edrych i chi o ran "y rhan fwyaf o arbenigeddau" yn cyrraedd y targedau adfer (h.y. 50 y cant, 95 y cant ac ati).

Trawma ac orthopaedeg

Therefore, if Wales was not to adopt a similar approach, providers could face a higher burden of bureaucracy and cost due to the application of compulsory competitive tendering; this might discourage providers from providing services to the Wales NHS. For example, UK wide third sector organisation could face higher costs in Wales as the healthcare services that they provide would be subject to periodic compulsory market testing. Health Boards could also incur unnecessary management costs in carrying out procurement exercises. It is difficult to estimate the potential extent of the risk of providers choosing to opt out of providing services to Wales, but the additional costs and bureaucracy may present an additional barrier.

Cadeirydd/Chair: Jonathan Morgan **Prif Weithredwr/Chief Executive:** Paul Mears

*Croeso i chi gyfathrebu â'r bwrdd iechyd yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Byddwn yn ymateb yn yr un iaith a ni fydd hyn yn arwain at oedi.
You are welcome to correspond with the Health Board in Welsh or English. We will respond accordingly and this will not delay the response.*

<https://ctmuhb.nhs.wales>

Tudalen y pecyn 244

Example – UK wide not-for-profit provider is commissioned to provide mental health services under an initial 12 month contract award. Under the UK Government Procurement Bill, at the end of this period, this health service must be offered to the market and the existing provider must respond via a formal tender process. In England, the Provider Selection Regime will allow flexibility for Integrated Care Systems to continue with existing service provision, where the arrangements are working well and there would be no value for patients, taxpayers and population in seeking an alternative provider. The application of a similar regime in Wales would support the development of longer term partnerships and collaborations to deliver services for the population. In this example, it could enable the non-for-profit provider to co-produce its service offer in partnership with a Health Board with greater certainty about the continuity of the service contract.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Sally May', followed by a long horizontal line extending to the right.

Sally May
Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid/Executive Director of Finance

Potential Implications of the Provider Selection Regime

NHS Wales Commissioning of External Capacity

When NHS Wales has neither the internal capacity or specialist capability to meet patient needs it commissions this care from NHS England, the charitable sector or from private providers, collectively termed 'non-NHS providers'. NHS Wales currently procures services commonly regarded as 'NHS/Health and Social Care services' from across the border within England from these types of providers across a wide range of disciplines. Such services have been contracted on an NHS-to-NHS basis with NHS England organisations as well as with private providers whose headquarters/location of service delivery is in England. Health services purchased from England include Emergency secondary care services (complex/specialist care); Orthopaedics; Ophthalmology; Dermatology; Dental Services; Mental Health/Learning Disability Hospital care; Mental Health/Learning Disability Hospital/CAMHS/Care Homes; Training and Laboratory Tests; Pancreatic surgery; Multiple patient services/surgery. Total annual spend for such services equate to c£57m (based only on contracts let by NWSSP procurement services with English providers (both NHS and private) therefore not healthcare services spend such as NHS to NHS).

NWSSP Procurement Services (PS) currently access a number of English framework agreements in order to award contracts for the purchase of products and services for the provision of health care provision. Framework providers include NHS Shared Business Services, Health Trust Europe, NHS Blood Transfusion (NHSBT), Scottish National Blood Transfusion Service (SNBTS), Irish Blood Transfusion Service (IBTS), Central Medicines Unit, NHS England & NHS Improvement, and NHS Commercial Solutions with a total annual value of call offs is c£100m. Call offs from frameworks include outsourced clinical services, radiology reporting services, clinical managed services for breast radiology services, histopathology reporting, testing, DNA extraction, blood products, population health management and inventory management. At this juncture there have been no indications, from English framework providers, of an inclination to cease the provision of framework agreements however it has been noted, of late, that a number of English frameworks are not being renewed which is requiring NWSSP PS to support in the delivery of an all-Wales agreement to ensure that NHS Wales has a framework to call off in the future.

Access to English framework agreements has afforded NHS Wales opportunities to put in place a solution for patient treatment/care, and the purchase of critical products/services relatively quickly. Should such frameworks cease, it would be necessary to take required steps to support areas of expenditure in the establishment of NHS Wales framework agreements. The implications of not being able to call off such products/services would result in a requirement to undertake a full procurement resulting in additional resource, time and effort required from NWSSP PS and key stakeholders from NHS Wales, a loss of access to expertise and potentially increased prices due to loss volume discount arrangements. This would incur additional procurement activity for NHS Wales in addition to the management of the framework during the term of contract. To move away from English frameworks/providers would require significant planning and resources (capital and staffing) due the size of the service across Wales.

NHS Wales can continue to draw opportunity from undertaking national procurements on behalf of all Health Boards, and if applicable combining the requirements of social care organisations. Therefore, in consideration of buying power Wales may benefit from still attracting the attention of English providers as, with the exception of large English CCG's/Trust, this may still provide significant opportunity. However, at this juncture it is not possible to quantify such impacts however notable may be the question as to providers appetite to bid to be part of such frameworks when they may show preference to collaborating with NHS England bodies (under PSR) whom they can establish more collaborative working relationships with rather than enter into an arm's length/adversarial tender processes.

Potential Impact of PSR

PSR will govern the arrangement of healthcare services in England delivering upon the ambitions set out within NHS England of a Long-Term Plan (proposals for possible changes to legislation), 2019. The Green Paper 'Transforming Public Procurement' and NHS England of a Long-Term Plan considered the need to enable the promotion of the 'triple aim' of better health for everyone, better care for all patients, and sustainability by organisations working together to redesign care around patients, removing current barriers to future success. Effectively NHS England are removing processes deemed burdensome and wasteful when commissioning healthcare services.

Until the roll out of the PSR regime in England it is difficult to comprehend the potential impact and cost of having a stricter/time consuming/costly procurement mechanism in place in comparison to the proposed PSR. At this stage there are no clear indications that health and social care organisations would cease procurement activity with surrounding nations once the PSR is in place.

A risk may exist in England's promotion of the 'triple aim' of better health for everyone, better care for all patients, and sustainability by organisations working together to redesign care around patients, removing current barriers to future success. A matter for consideration is the relationship's that may be borne as part of the regime change, namely the involvement of organisations outside of the NHS/LA (CCGs, NHS trusts, foundation trusts and local authorities) i.e., 3rd sector and private organisations resulting in potential affiliation/arrangements forming between NHS bodies and 3rd sector/private organisations. It is difficult to understand the full impact on NHS Wales therefore we are only able to, at best, make assumptions of its impact and contemplate 'what if' scenarios. The following assumes that private/3rd sector providers may secure future demand for healthcare services via 'Joint Committee' affiliations. If this was the case NHS Wales may be impacted due to potential prioritisation of service for NHSE patients, by means of an example bed blocking of mental health/learning disability beds. The net impact of this, for current contracts, may be that we would not have sufficient Mental Health and Learning Disability (medium secure/low secure/locked/open rehabilitation/CAMHS) beds, also providers may not wish to go through a lengthy procurement process to gain access to one of NHS Wales frameworks and all of the quality controls that come pre and post award. Other specialist services currently commissioned by NHS Wales are proton beam therapy; PET scans; acute services; emergency secondary care services (complex/specialist care); and multiple specialist services.

For Aneurin Bevan University Health Board and Betsi Cadwaladr University Health Board there may be some cross border activity in Bristol and Shrewsbury, if providers based within these areas have a partnership arrangement with the local Trust this may impact on their future use. A further risk may be that NHS England organisations may create partnership relationships with market leaders, leaving NHS Wales with a reduction in companies with the capacity and capability to deliver future requirements.

An unintended consequence of the legislative changes for England may result in NHSE/private and 3rd sector providers no longer wishing to support NHS Wales frameworks/contracts for healthcare services procured under the Public Contracts Regulations 2015. The worst-case scenario may be a reduction in the availability of cross border services to NHS Wales which are currently critical to the delivery of care for vulnerable and sick patients. Therefore, a potential reduction in capacity, though the true impact of this is unknown.

To summarise: The true impact on NHS Wales will not be known until after PSR has been introduced. At this stage we do not know whether English frameworks will be accessible to NHS Wales following the regime change and the introduction of the PSR regime in England; there may be a reduction in providers wishing to participate in an NHS Wales frameworks/and or contracts; without the interest of providers in bidding for NHS Wales future contracts NHS Wales may struggle to deliver care for very vulnerable patient groups.



Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd
Arbenigol Cymru (PGIAC)
Welsh Health Specialised
Services Committee (WHSSC)

Your ref/eich cyf:
Our ref/ein cyf: SD.SL.DD.
Date/dyddiad: 17 April 2023
Tel/ffôn: 01443 443443
Fax/ffacs: 029 2080 7854

Madelaine Phillips,
Policy and Public Affairs Officer/Swyddog Polisi a Materion Cyh
Welsh NHS Confederation

Dear Madelaine

Procurement Bill Evidence

Thank you for the opportunity of contributing to the process of considering the procurement bill. In order to provide structured feedback I thought it would be helpful to provide some background around procurement in the context of commissioning specialised health services which is the role of Welsh Health Specialised Services Committee (WHSSC). The letter then gives some specific examples which support the need for the bill.

Context

WHSSC commissions specialised health services for the population of Wales on behalf of the 7 Welsh Health Boards and has a revenue budget of circa £750m per annum. WHSSC commissions these services from healthcare providers in both Wales and England with the majority procured via the NHS. Approximately £30m is procured directly from the independent sector as set out below. A further £70m is procured from independent sector providers for renal dialysis via contracts held by WHSSC's NHS health board and NHS Trust providers.

When WHSSC commissions from the independent sector it is tendered via the NHS Wales Shared Services Partnership or relevant national framework agreements. The directly annual value of services procured directly from the independent sector is fairly modest at £30m with the main components as follows:

- The key area is mental health placements for medium secure and eating disorders totalling £17.662m. This is procured via an NHS framework agreement tendered by the National Collaborative Commissioning Unit (NCCU) via NHS Wales Shared Services Partnership.

- The next largest value is a national tender via NWSSP for HPN ([Home Parenteral Nutrition for Intestinal Failure](#)) at £5.863m. This has recently been extended but at a material cost increase given market conditions and reduced competition.
- The third largest value is £3.109m for a rare disease high cost drug with the vast majority of the cost being the drug price accessed via an agreed PAS ([Patient Access Scheme discount](#)). As these prices are set nationally and not further negotiated there is little procurement risk in this area.
- The final significant area is £2.720m for the positron emission tomography scanning service from Cardiff University – this is procured via a long term contract under a limited competition procurement linked to a Welsh Government funded initiative – this is being renewed under a new national programme with NWSSP advice on the new tender arrangements owing to fixed site requirements.

WHSSC's main commissioning route to access independent sector providers is normally via its main NHS providers – for Wales, mainly CVUHB, SBUHB and BCUHB. Out of these contracts the highest value non-NHS area is the procurement of renal satellite dialysis which across Wales totals up to £70m per annum. WHSSC is closely involved in these processes via the Welsh Kidney Network - setting the requirements for specification, standards and volumes but all contracts are held by the three regional NHS providers and recharged to WHSSC. These contracts are tendered via the NWSSP who also provide ongoing contract management as part of their function.

Procurement Risks Relevant to the Bill

WHSSC's experience over the last three years is that the procurement environment has become more difficult. There has generally been upward pressure in prices on renewed contracts sometimes disproportionate to general inflation conditions. A number of areas have experienced supply problems and issues particularly when there is dependence on one or two main providers. With the supply side constraints post the pandemic the procurement environment feels less competitive which has been reflected in higher prices and generally less competition in some key areas. This means that in practice we are increasingly in competition with the NHS system in England to secure services/products which are in limited supply. This is highly relevant to the procurement bill as it is essential that doing business with NHS Wales must not be seen to be more difficult or less flexible than with other parts of the UK.

There are a number of specific experiences that WHSSC's has had that are potentially relevant to any change in procurement legislation:

- Mental Health NCCU framework – this has recently been renewed but indications are significant upward pressure on tendered prices for many framework providers in response to staffing and facilities cost

escalation. The strategic issue here is that the majority of the provision in the framework is based in England and we are competing for these resources. These places are becoming a more limited commodity as NHS England demand is growing and NHS provision difficult to meet all demand. Wales therefore needs to remain attractive for providers to be part of the framework. There is a risk that different legal frameworks could become a perceived barrier for providers to wish to bid or may price in perceived additional risk.

- Dialysis – via WHSSC’s regional providers the most recent large scale procurement has concluded for the whole of South West Wales. We experienced reduced competition with fewer providers bidding and material prices increases. Whilst the specific risks identified in this recent process predated any legislative changes elsewhere, the issues of staffing difficulties and spread of resources, will be continue to relevant for some time. [REDACTED] The strategic procurement risk is the need to remain attractive as a place to do business given the degree of systemic uncertainties in the current market. Historically, procuring dialysis capacity from the independent sector has had the advantages of price, speed, flexibility and not requiring access to capital expenditure resources. However, if conditions continue to move adversely there will at some point be a need to reconsider the balance of provision between the NHS and the independent sector. The relationships with the independent sector in dialysis are longstanding and important and hence it is essential that we remain competitive as a market with the NHS in England.
- HPN – this direct contract was recently extended via the NWSSP process. Against a background of limited effective competition and recent national supply difficulties the cost increases have been material despite negotiation. The very limited competition available for this service reinforces the need to remain an attractive market for providers as alternative provision is difficult to source or recreate in the NHS.

The risks seen in the WHSSC portfolio as illustrated in the above examples lead to a clear preference for a cautious approach where Wales remains in initial alignment with the new system in NHS England. This would give us time to assess the impact on the English system in practice and take the learning into a more localised Welsh approach which could be enabled by the proposed bill.

Other considerations:

- Foundational economy – the nature of WHSSC’s specific service requirements above mean that we can justify the need for local delivery. This may be more difficult in some other areas of procurement which technically could be supplied from a distance. Consideration could be given as to how any new Welsh

procurement framework could be more directly aligned to the principles of the foundational economy goal.

- Flexibility of contract models – a bespoke Welsh framework could enable more flexible arrangements which could encourage long term contracts with flexibility to adapt delivery models over time to increase the proportion of a service delivered by the NHS as opposed to be wholly provided by the independent provider – for example, changing the model of delivering home nursing support for intestinal failure services to a mixed economy of NHS/private provision where local services can integrate better.

I hope you find this information useful to inform collective thoughts on the proposed bill.

Yours sincerely

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Stuart Davies', with a stylized flourish at the end.

Stuart Davies
Director of Finance

Ein cyf: MA-EM-0959-23

Russell George
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Seneddlechyd@senedd.cymru

18 Ebrill 2023

Annwyl Russell,

Diolch ichi am adroddiad y Pwyllgor dyddiedig 13 Chwefror yn dilyn yr ymchwiliad i ddeintyddiaeth yng Nghymru.

Rwyf wedi ystyried 16 argymhelliad y Pwyllgor yn ofalus ac rwy'n amgáu fy ymateb ysgrifenedig.

Yn gywir,



Eluned Morgan AS/MS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn dilyn eu hymchwiliad i ddeintyddiaeth yng Nghymru. Chwefror 2023

1. Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am yr adroddiad ar eu hymchwiliad i ddeintyddiaeth yng Nghymru. Rwy'n falch o ddweud bod argymhellion y Pwyllgor yn cefnogi ein cyfeiriad polisi presennol, ar y cyfan.

2. Rydym wrthi'n gweithredu'r newid mwyaf sylweddol i'r system ddeintyddol mewn dwy genhedlaeth. Ni ddylai fod yn syndod felly bod rhywfaint o anniddigrwydd tra bo'r newid hwn, y mae mawr ei angen, yn cael ei gyflwyno. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n gyfan gwbl i ailgyfeirio deintyddiaeth i fodel ataliol sy'n darparu gofal a thriniaeth ar sail risg ac anghenion. Dim ond un rhan o'r diwygiad mawr hwn yw'r contract deintyddol, ac rwy'n falch bod hyn yn cael ei gydnabod yn argymhellion y pwyllgor.

3. Yn ystod y 12-14 mis nesaf mae'n anochel y bydd angen inni ganolbwyntio ar drafod y contract deintyddol newydd. Dyma'r conglaen ar gyfer darparu deintyddiaeth gofal sylfaenol a phan fydd wedi ei sefydlu bydd yn ein galluogi i ddatblygu ac adeiladu'r system ddeintyddol ehangach ar sylfaen gadarn.

Amlinellir isod yr ymatebion manwl i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad:

Argymhelliad 1. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y broses ymgynghori ynghylch newidiadau posibl i'r contract deintyddol yn cael ei chynnal o leiaf chwe mis cyn y bwriedir cyflwyno'r diwygiadau eu hunain.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn yn Rhannol

Byddem bob amser yn ceisio cynnwys y proffesiwn deintyddol mewn unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl. Yn wir, os yw newidiadau wedi'u cynllunio gan ddefnyddio model partneriaeth gymdeithasol cynhelir yr ymgynghoriad yn ystod cyfnod datblygu'r ateb y cytunwyd arno, sy'n lliniaru'r angen i ymgynghori. Dyna ein nod yn y pen draw, lle bydd pob parti sydd â diddordeb yn gweithio gyda'i gilydd i adnabod a chytuno ar atebion.

Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn bod y cynnig i amrywio'r contract ar gyfer 2022/23 wedi ei gyhoeddi yn hwyrach nag y bydden ni wedi'i ddymuno. Fodd bynnag, roedd pandemig COVID-19 yn sefyllfa eithriadol. Yn wyneb yr opsiwn o oedi'r diwygiadau am flwyddyn arall, heb fynediad i gleifion newydd am flwyddyn arall, gwnaethom y penderfyniad i fwrw ymlaen i amrywio'r contract. Ar gyfer cynnig amrywio 2023/24 dechreuwyd yr ymgynghoriad ym mis Medi 2022 a gwnaed y cynnig ysgrifenedig ym mis Rhagfyr 2022. Dyma'r dull y byddem yn gobeithio parhau i'w gymryd, sy'n taro cydbwysedd rhwng ymgysylltu i lunio polisi a rhoi amser i fyfyrto ar y cynnig terfynol.

Cafwyd peth beirniadaeth yn ddiweddar o ganlyniad i gyflwyno'r hysbysiad i amrywio'r contract ar gyfer 2023/24 ar ddiwedd mis Mawrth 2023. Dyma'r cyfrwng cyfreithiol ar gyfer gweithredu'r cynnig i amrywio a wnaed ym mis Rhagfyr 2022. Ni chafodd unrhyw newidiadau i'r metrigau cyfaint eu cyflwyno gan yr hysbysiad i amrywio'r contract, ac eithrio esboniad ynghylch gor-berfformiad y metrig cleifion newydd sy'n cyflwyno dull cyson ac er budd y practisau, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 2. Rhaid i Lywodraeth Cymru fonitro'r apwyntiadau sy'n cael eu rhoi i gleifion i sicrhau bod y cydbwysedd yn iawn rhwng gwaith ataliol, gofal sy'n seiliedig ar anghenion, darpariaeth ddeintyddol frys, a gweld cleifion newydd. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn cyn gwneud unrhyw newidiadau eraill i'r contract deintyddol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn yn Rhannol

Byddem yn fodlon cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor ar weithgarwch yn ymwneud â gofal a thriniaeth yn ystod 2022/23 o dan y broses ddiwygio. Fe allai'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno yn nhymor yr Hydref os yw'r pwyllgor yn gytûn.

Mae'r cyfeiriad ar gyfer 2023/24 eisoes wedi'i osod gyda'r cynnig diwygio wedi'i gyflwyno i bractisau ym mis Rhagfyr 2022. Ers hynny rydym wedi ysgrifennu at Gymdeithas Ddeintyddol Prydain (BDA) yn nodi ein bwriad i ddechrau trafodaethau ffurfiol ar gontract deintyddol newydd a gofyn iddynt am eu mandad trafod. Gobeithiwn mai 2023/24 fydd y flwyddyn olaf o amrywiad ac y bydd y newidiadau'n cael eu cytuno drwy drafodaethau teirochrog (Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, y GIG, Llywodraeth Cymru) gan ddefnyddio egwyddorion partneriaeth gymdeithasol. Mae'n debygol y bydd angen ymgynghori'n ffurfiol ar newidiadau i reoliadau contract y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a fydd yn rhoi cyfle i'r pwyllgor roi eu barn.

Goblygiadau ariannol – Dim. Darperir ar gyfer costau cyfreithiol sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol o fewn y cyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer creu rhestr aros ganolog, gan adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn am y cynnydd erbyn diwedd 2023. Fel cam dros dro, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn creu rhestr aros ganolog ar gyfer ei ardal erbyn diwedd 2023.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn

Mae swyddogion eisoes yn trafod gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) i ystyried y cynllun ar gyfer rhestr aros ddeintyddol Cymru gyfan. Yr arwyddion cychwynnol yw y gellir cyflawni hyn o fewn y flwyddyn ariannol nesaf ac mae cyllid wedi'i neilltuo i ariannu'r prosiect.

Mae gan rai byrddau iechyd drefniadau ar waith eisoes i gynnal rhestr aros. I'r rhai hynny sydd heb drefniadau ar waith, byddem yn awgrymu bod gwneud hynny fel rhan o'r amserlen ar gyfer ateb Cymru gyfan yn gwbl ddiangen.

Goblygiadau Ariannol - Arian sydd eisoes wedi'i nodi o gyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 4. Er mwyn lleihau anghydraddoldebau, erbyn diwedd 2023, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn rhoi gwybodaeth i bobl am sut i ymuno â rhestr aros ar gyfer gwasanaethau deintyddol, a hynny mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd, ac nid ar-lein yn unig.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn yn Rhannol

Fel yr amlinellir o dan yr ymateb i argymhelliad 3 rydym yn credu mai'r ffordd orau o ddatrys hyn yw cyflwyno ateb Cymru gyfan ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r ateb hwnnw ym mlwyddyn ariannol 2023/24. Bydd gweithredu system newydd yn gofyn am ymgyrch gyfathrebu gyhoeddus, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth gyhoeddus newydd ar gyfer cael mynediad at ofal deintyddol. Bydd yr agwedd hon ar y prosiect yn rhoi cyfle i fynd i'r afael â'r argymhelliad i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau.

Goblygiadau Ariannol - Darperir cyllid datblygu a gweithredu ar gyfer rhestr aros ganolog o gyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r gofynion ar gyfer casglu data drwy ddeintyddion y GIG er mwyn symleiddio'r broses a lleihau dyblygu gwaith. Dylid cwblhau'r adolygiad hwn erbyn mis Rhagfyr 2023, a dylid rhoi gwybod i ni beth yw'r canfyddiadau erbyn mis Mawrth 2024 fan bellaf.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Cefnogir y rhaglen i ddiwygio'r contract deintyddol gan sawl ffrwd waith. Er mwyn rhoi mwy o gyfle i ddeintyddion gymryd rhan yn y rhaglen ddiwygio crëwyd ffrwd waith newydd yr hydref diwethaf. Byddwn yn gofyn i'r gweithgor hwn adolygu'r argymhelliad a nodi opsiynau i leihau'r baich gweinyddol.

Goblygiadau Ariannol – Dim.

Argymhelliad 6. Erbyn diwedd tymor yr haf 2023, dylai Llywodraeth Cymru roi cynllun clir ac amserlenni i'r Pwyllgor hwn yn dangos sut y bydd yn cyflwyno un system feddalwedd i'w defnyddio gan holl ddeintyddion Cymru, a dylai roi diweddariadau bob chwe mis am y cynnydd a wneir. Dylai'r cynllun hefyd gynnwys manylion am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â phractisau preifat yn hyn o beth.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Rydym yn croesawu'r argymhelliad mewn egwyddor. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd p'un a yw'n ymarferol o ystyried y gymysgedd preifat/GIG neu hyd yn oed a yw'r proffesiwn yn ei ffafrio. Byddai angen proses gaffael sylweddol ar gyfer gweithredu hefyd. Byddwn yn defnyddio'r sianeli presennol i feithrin cysylltiadau â'r proffesiwn ynghylch y cynnig hwn ac yn cynnal dadansoddiad o'r opsiynau erbyn diwedd tymor yr haf 2023. Bydd hyn yn cynnwys y risgiau, y buddion a'r costau posibl ac yn darparu tystiolaeth gadarn ar gyfer bwrw ymlaen â'r argymhelliad hwn.

Byddai unrhyw benderfyniad i weithredu'r argymhelliad hwn hefyd yn gysylltiedig â'r trafodaethau ar gyfer y contract deintyddol newydd sy'n annhebygol o fod wedi'u cwblhau erbyn diwedd tymor yr haf eleni. Ar ôl i'r trafodaethau ddod i ben, byddem yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Goblygiadau Ariannol - Dim ar hyn o bryd.

Argymhelliad 7. Yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru ddweud wrthym beth mae'n ei wneud i feithrin dealltwriaeth glir o'r rhwystrau sy'n atal grwpiau sy'n agored i niwed rhag defnyddio gwasanaethau deintyddol, ble yn union mae'r anghydraddoldebau, ac a oes angen rhagor o ymchwil yn y maes hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae angen ymchwil ychwanegol yn y maes hwn ac mae swyddogion eisoes wedi comisiynu ymchwil ynghylch cael mynediad at weithwyr proffesiynol ym maes deintyddiaeth, y maes fferylliaeth, a'r maes perthynol i iechyd. Mae manyleb yr ymchwil yn cynnwys gofyniad i nodi rhwystrau i fynediad ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed.

Mae disgwyl i'r prosiect hwn gyflwyno adroddiad ar ddiwedd mis Mai 2023 a bydd ar gael i'r pwyllgor ei ystyried.

Goblygiadau Ariannol – Mae costau'r ymchwil yn cael eu hariannu o gyllidebau presennol ar gyfer rhaglenni.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y strategaeth ar gyfer y gweithlu deintyddol yn adlewyrchu'r dyheadau newydd a'r angen am fwy o gymysgedd sgiliau yn y gweithlu, a dylid cyhoeddi'r strategaeth hon cyn gynted â phosibl. Gan fod disgwyl i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gael y drafft ym mis Rhagfyr 2022, dylid cyhoeddi'r strategaeth derfynol erbyn gwanwyn 2023 fan bellaf.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Daeth fersiwn ddrafft y cynllun gweithlu i law fel y bwriadwyd, ac ers hynny rydym wedi bod yn gweithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru i gwblhau'r cynllun a'r costau ariannol. Yn anffodus, o ganlyniad, mae'r dyddiad cyhoeddi ffurfiol wedi'i ohirio tan fis Gorffennaf.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i gyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol angenrheidiol i alluogi therapyddion deintyddol i gael rhif perfformiwr, a dylai roi amserlen i ni ar gyfer gwneud hyn.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Yn dilyn y cyhoeddiad yn Lloegr y bydd Therapyddion Deintyddol a Hylenyddion nawr yn cael agor a chau cyrsiau triniaeth mae swyddogion wedi gofyn ac wedi cael cyngor cyfreithiol newydd ynghylch y rhwystrau deddfwriaethol sy'n atal hyn rhag cael ei efelychu yng Nghymru. I grynhoi, mae cyfreithwyr wedi cynghori y gall Gweithwyr Proffesiynol Gofal Deintyddol ddarparu gwasanaethau deintyddol y GIG ar yr amod bod ganddynt y profiad clinigol, yr hyfforddiant, y cymwysterau, y cymhwysedd, a'r indemnïad sydd ei angen i'w galluogi i gyflawni unrhyw wasanaethau deintyddol yn briodol. Felly, nid oes angen gwneud unrhyw newid deddfwriaethol ar hyn o bryd.

Mae swyddogion nawr yn paratoi deunydd cyfathrebu ar gyfer byrddau iechyd i esbonio sut y bydd y newid hwn yn cael ei weithredu ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer sefydlu ysgol ddeintyddol yn y Gogledd a dylai roi adroddiad i ni am ddichonoldeb hyn erbyn mis Gorffennaf 2024.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae ehangu'r ddarpariaeth hyfforddiant i'r tîm deintyddol cyfan yn flaenoriaeth allweddol ar gyfer y gweithlu i'r dyfodol. Rydyn ni'n gwybod bod pobl yn fwy tebygol o weithio lle maen nhw'n hyfforddi ac felly, mae'n rhaid i ni gynyddu'r cyfleoedd hyfforddi yn yr ardaloedd gwledig. Mae hyn eisoes wedi dechrau gyda dull graddol o wella recriwtio gwledig drwy fenter hyfforddi wedi'i thargedu ar gyfer myfyrwyr sy'n graddio ym mis Medi eleni.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 11. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi sicrwydd bod iechyd y geg yn cael ei integreiddio mewn polisiau ataliol fel Pwysau Iach, Cymru Iach, a dylai roi enghreifftiau o ble a sut mae hyn yn cael ei wneud.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae proses lywodraethu safonol ar gyfer datblygu polisiau o fewn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'r Fforwm Polisi yn elfen allweddol o'r broses honno sy'n sicrhau bod yr holl bolisiau sy'n cael eu datblygu yn cael eu hadolygu a bod rhyngddibyniaeth rhwng yr holl arweinwyr polisi yn yr adran.

Mae blaenoriaethau 1 a 6 o Pwysau Iach, Cymru Iach sy'n canolbwyntio ar ddewisiadau bwyta'n iach yn enghraifft wych o'r polisi yma'n cyfrannu at wella iechyd y geg.

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 12. Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y Cynllun Gwên yn cael ei adfer i'r lefelau a welwyd cyn y pandemig cyn gynted â phosibl, gan roi diweddariad i'r Pwyllgor hwn am y cynnydd erbyn diwedd tymor yr haf 2023.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Gallwn roi sicrwydd i'r pwyllgor bod adferiad y Cynllun Gwên yn dod yn ei flaen yn dda. Mae yna rai ysgolion o hyd sy'n amharod i ail-ymuno am amryw o resymau. Bydd adroddiad blynyddol Cynllun Gwên 2022/23 yn cael ei ddarparu i'r pwyllgor cyn toriad yr haf.

Goblygiadau Ariannol - dim, mae darpariaeth y Cynllun Gwên yn cael ei ariannu o ddyraniad a glustnodwyd i fyrddau iechyd.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith ymchwil i ganfod a ddylid darparu rhaglenni iechyd y geg i blant hyd at 12 oed mewn ysgolion ym mhob bwrdd iechyd, a hynny fel cam ataliol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Y cyngor a gafwyd hyd yma oedd nad oes llawer o dystiolaeth o'r budd clinigol ar gyfer ymestyn y dull Cynllun Gwên y tu hwnt i 7 oed. Bydd plant sy'n elwa o'r rhaglen Cynllun Gwên wedi normaleiddio arferion da ar gyfer iechyd y geg. Fodd bynnag, rydym am wella mynediad at wasanaethau deintyddol ar gyfer plant o bob oedran ac rydym yn gwybod bod defnyddio farnais fflworid yn rheolaidd yn ddull profedig ar gyfer atal pydredd dannedd. Felly, byddem yn ceisio canfod ai'r ffordd orau neu'r ffordd fwyaf effeithlon o wneud hyn yw drwy raglenni mewn ysgolion neu drwy wasanaethau deintyddol gofal sylfaenol.

Goblygiadau Ariannol - mae cyllid wedi'i nodi o fewn cyllidebau presennol i ariannu prosiect ymchwil.

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yr opsiynau ar gyfer ehangu'r rhaglen Gwên am Byth i leoliadau preswyl eraill, fel cartrefi gofal i bobl iau sy'n agored i niwed, tai gwarchod a thai gofal ychwanegol, gan adrodd ei ganfyddiadau yn ôl i'r Pwyllgor hwn erbyn diwedd 2023.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Ers cael yr argymhelliad, rydym wedi sefydlu bod rhai byrddau iechyd eisoes yn meithrin cysylltiadau â'r mathau hyn o wasanaethau drwy eu gwasanaethau deintyddol cymunedol. Yn ogystal, er bod y rhaglen ei hun wedi'i hanelu at bobl hŷn

sy'n byw mewn cartrefi gofal, mae'r adnoddau ar gael i bawb ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru - [Gwên am byth - Public Health Wales \(nhs.wales\)](https://www.nhs.uk)

Goblygiadau Ariannol – Dim

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i werth cyflwyno fflworid i'r systemau dŵr cyhoeddus o safbwynt iechyd y cyhoedd, ynghyd ag ymchwil i agweddau pobl at hynny. Dylai ymrwymo i gyhoeddi canfyddiadau'r ymchwil hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gwrthod

Cyhoeddodd 4 swyddog meddygol y DU eu barn ar y mater hwn ym mis Medi 2021 - [Statement on water fluoridation from the UK Chief Medical Officers - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk) (Saesneg yn unig). Nid oes unrhyw amheuaeth felly ynghylch ei werth o safbwynt iechyd y cyhoedd.

Nid oes costau cyfredol ar gael ar gyfer gweithredu yng Nghymru ond roedd Astudiaeth Ddichonoldeb Technegol a gynhaliwyd yn 1997 gan Hyder ar ran Awdurdodau Iechyd Cymru yn nodi y byddai cost cyfalaf gosod offer fflworeiddio ym mhob un o'r 121 gwaith trin dŵr yng Nghymru bryd hynny yn £21 miliwn. Amcangyfrifir y byddai'r costau cynnal blynyddol rheolaidd yn ychydig dros £1 miliwn.

Amcangyfrifir y byddai cost cyfalaf cyflwyno system fflworeiddio dŵr yn ardal Dŵr Cymru bellach yn dros £38 miliwn, gan ystyried chwyddiant yn unig. Amcangyfrifir y byddai costau cynnal cynllun o'r fath yn flynyddol oddeutu £2 miliwn.

Gan ystyried y pwysau ariannol ar hyn o bryd, waeth beth yw barn y cyhoedd, mae'n annhebygol y gallai Llywodraeth Cymru fflworeiddio ei chyflenwad dŵr ar draws Cymru gyfan. Felly byddem yn dadlau na fyddai unrhyw ymchwil i farn y cyhoedd ar hyn o bryd yn cynnig gwerth am arian.

Goblygiadau Ariannol - Amherthnasol

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a yw'r lefelau cyllido presennol yn ddigonol i'r gwasanaeth gyflawni'r hyn y mae angen iddo'i gyflawni er mwyn lleihau'r ôl-groniad, a dylai adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ynghylch hyn erbyn diwedd tymor yr haf 2023.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Rydym yn gweithio i sefydlu'r rhestr aros ganolog. Unwaith y bydd y rhestr hon yn ei lle, byddwn yn gallu sefydlu faint o bobl sy'n aros am ofal deintyddol y GIG. Yn seiliedig ar yr wybodaeth hon, byddwn yn gallu gwneud asesiad o'r lefelau ariannu sydd eu hangen ar gyfer y gweithgarwch ychwanegol a'r gweithlu ychwanegol i ymgymryd â'r gweithgarwch hwnnw. O fewn yr asesiad hwn, a'r diwygiadau yr ydym

yn ymgymryd â nhw, byddwn hefyd yn ystyried y cymysgedd sgiliau priodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal gan y gweithiwr proffesiynol mwyaf priodol.

Goblygiadau ariannol – Ddim yn hysbys ar hyn o bryd

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a
Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

19 Ebrill 2023

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25: Ymgysylltu

Yn ein cyfarfod ar 23 Mawrth 2023, trafododd y Pwyllgor Cyllid (y Pwyllgor) ei raglen ymgysylltu ar gyfer Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024-25, sydd ar ddod, cyn dadl flynyddol y Pwyllgor yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant, a drefnwyd ar gyfer 12 Gorffennaf. Rwy'n ysgrifennu at Gadeirydd pob pwyllgor pwnc i rannu ein syniadau. Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i gynnal nifer o weithgareddau ymgysylltu cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei chyhoeddi yn yr hydref. Mae'r rhain yn cynnwys digwyddiad i randdeiliaid, grwpiau ffocws a gynhelir gyda'r cyhoedd, a gweithdy gydag aelodau o'r Senedd leuenctid.

Digwyddiad i randdeiliaid: Wrecsam

Bydd digwyddiad rhanddeiliaid eleni yn cael ei gynnal ar gampws Prifysgol Glyndŵr (Canolfan Catrin Finch) yn Wrecsam fore Iau 15 Mehefin. Bydd y digwyddiad hwn yn gyfle i'r Pwyllgor glywed yn uniongyrchol gan sefydliadau/unigolion sydd â diddordeb ar y cynigion disgwylidig yn y gyllideb ddrafft, yn ogystal â'u safbwyntiau ar ddull Llywodraeth Cymru o bennu'r gyllideb a blaenoriaethu adnoddau. Gan fod gwaith ar draws y pwyllgorau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y gyllideb yn hanfodol ar gyfer gwaith craffu effeithiol, hoffwn wahodd Cadeiryddion y Pwyllgorau neu Aelod o bob Pwyllgor i ymuno â'r digwyddiad. Os oes gan Gadeiryddion neu Aelodau ddiddordeb mewn



dod i'r digwyddiad, dylech gysylltu â'r tîm clericio erbyn 22 Mai, gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn: SeneddCyllid@Senedd.Cymru.

Ceisio barn y cyhoedd yng Nghymru drwy gynnal grwpiau ffocws ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion

Ar ran y Pwyllgor, bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn y Senedd yn cynnal cyfres o grwpiau ffocws cyhoeddus ar y gyllideb ddrafft. Mae'r tîm wedi cynnal ymarferion tebyg dros y blynyddoedd diwethaf, a nod y gwaith hwn yw llunio astudiaeth hydredol a fydd yn caniatáu i'r Pwyllgor fonitro safbwyntiau ac agweddau dros amser. Deuir o hyd i gyfranogwyr drwy sefydliadau partner tebyg er mwyn cael yr un ddemograffeg â'r hyn a gafwyd y llynedd, a bydd grwpiau'n cael eu trefnu i ganolbwyntio ar feysydd polisi penodol. Bydd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion yn rhannu dyddiadau'r sesiynau â phob Pwyllgor, ar gyfer unrhyw Aelod sydd am gymryd rhan. Bydd hyn yn gyfle i Aelodau glywed yn uniongyrchol gan ddinasyddion Cymru ynghylch lle y dylid blaenoriaethu gwariant.

Senedd Ieuenctid Cymru

Y llynedd, i ategu ein gwaith ymgysylltu ymhellach, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy gydag Aelodau o'r Senedd Ieuenctid. Roedd y profiad o glywed yr Aelodau ifanc hyn yn siarad yn agored am y materion sy'n ymwneud â nhw ac sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt yn hynod fuddiol. Rydym yn awyddus i barhau i adeiladu ar y gwaith amhrisiadwy hwn, a byddwn yn gwahodd yr Aelodau ifanc i gymryd rhan mewn gweithdy eto eleni.

Dadl y Pwyllgor Cyllid yn y Cyfarfod Llawn ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru

Fel y soniwyd uchod, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 12 Gorffennaf ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Bydd canlyniadau ein gwaith ymgysylltu yn llywio'r ddadl honno ac yn bwydo i mewn iddi, a dyma fydd y cyfle gorau i ddylanwadu ar flaenoriaethau gwariant Llywodraeth Cymru cyn i'r Gyllideb Ddrafft gael ei llunio yn yr hydref. Fel bob amser, byddem yn croesawu cyfranogiad Cadeiryddion y Pwyllgorau, ynghyd â'r Aelodau eraill, fel rhan o'r ddadl hon, er mwyn sicrhau bod safbwyntiau a blaenoriaethau Pwyllgorau'r Senedd yn llywio cynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

Y dull o graffu ar y Gyllideb

Byddaf yn ysgrifennu at y Cadeiryddion cyn hir ynglŷn â dull y Pwyllgor o graffu ar y gyllideb, gan gynnwys gwybodaeth am yr ymgynghoriad a'r amserlen ar ôl i'r Trefnydd roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes am ddyddiadau cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft.

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi ceisio sicrhau bod proffil ac effeithiolrwydd y gwaith craffu a wneir ar y gyllideb yn y Senedd yn destun gwella parhaus, a bod y cyhoedd yng Nghymru yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r broses honno. Fel y gwyddoch, rydym ar hyn o bryd yn cynnal trafodaethau â'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ar gynigion i ddiwygio'r [Protocol ar gyfer Proses y Gyllideb](#), sy'n amlinellu'r

ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a'r Senedd o ran y trefniadau gweinyddol ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft flynyddol a materion eraill sy'n gysylltiedig â'r gyllideb.

Yn ogystal, yn ystod cylch cyllideb y llynedd, cytunodd y Pwyllgor i ymgynghori â'r pwyllgorau eraill ar y ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, ochr yn ochr â'i chynigion ar gyfer y gyllideb ddrafft, gyda'r bwriad o geisio gwella'r wybodaeth sy'n cael ei darparu. Ysgrifennais at y Cadeiryddion ar y mater hwn ar 8 Mawrth, ac rwy'n ddiolchgar i'r pwyllgorau sydd wedi ymateb. Wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgorau am y datblygiadau sy'n dod i'r amlwg.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

